# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 13.09.12

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Peter Read – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr: Huw Edwards, Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Llywarch Bowen Jones, Siôn Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dewi Owen, Liz Saville Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Wyn Williams, R. Hefin Williams.

**Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig:** Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru)

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd R H Wyn Williams (Gofal)

**Swyddogion:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Jones Evans, Dyfrig Siencyn, Mrs Rita Price (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Rhian Roberts (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor).

## 1. YSGOL Y GROESLON

Mynegodd Aelod ei bryder nad oedd swyddog o'r Adran Addysg yn bresennol i roi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu ynglŷn â chyflwr Ysgol y Groeslon o ystyried adroddiadau sydd wedi ymddangos yn y wasg yn ddiweddar ynglŷn â phryderon rhieni.

Eglurwyd nad oedd eitem benodol ar y rhaglen ac y byddir yn cyfeirio pryder yr Aelod i'r Adran Addysg.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Elin Walker Jones fuddiant personol yn Eitem 5 – Newid mewn Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru 7 gan ei bod yn gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2012 fel rhai cywir.

## 4. NEWID MEWN GOFAL IECHYD YNG NGOGLEDD CYMRU

(a) Eglurodd yr Is-gadeirydd yn deillio o'r cyflwyniad i holl Aelodau'r Cyngor a gyflwynwyd bore heddiw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mai bwriad y pwyllgor hwn ydoedd ystyried ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac yn benodol i'r cynigion a gyflwynwyd ynglŷn â'r newidiadau mewn gofal iechyd yng Ngogledd Cymru.

(b) Cyn symud ymlaen at y brif eitem, mynegodd Aelod ei anniddigrwydd a phryder ynglŷn â pholisi iaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nodwyd mai dim ond un swyddog dwyieithog o'r holl swyddogion oedd yn bresennol yn y cyflwyniad a theimlwyd yn gryf y dylai arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd fod yn ddwyieithog. Apeliwyd ar aelodau i siarad yng Nghymraeg mewn unrhyw gyfarfod i'r dyfodol ac iddynt ddefnyddio'r cyfarpar cyfieithu.

(c) Crynhodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (DPL) y cynigion a oedd yn rhan o ymgynghoriad y Bwrdd Iechyd gan annog y Pwyllgor i lunio argymhellion i'w gynnwys fel barn y Cyngor i'r ymgynghoriad. Nodwyd bod y cynigion yn cyfeirio at bedwar pennawd:

- Gwasanaethau arbenigol sef gofal dwys i'r newydd-anedig a gwasanaethau fasgwlaidd
- Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Gwasanaethau Cymuned
- Ysbytai yn y gymuned

O safbwynt y **gwasanaethau gofal dwys i'r newydd-anedig**, cynigir cadw unedau gofal arbennig a dibyniaeth uchel i fabanod yn y 3 Ysbyty presennol a darparu'r gwasanaethau gofal dwys yn Ysbyty Arrowe Park. Tra'n derbyn bod gwasanaeth ar gael yn Ysbyty Bodelwyddan nid oedd modd cynnig gofal 24 awr oherwydd diffyg adnoddau staff i roi gwasanaeth arbenigedd yno.

(ch) Mewn ymateb i'r cynnig uchod, roedd y Pwyllgor Craffu o'r farn y dylid gwneud cais i wahodd arbenigwr o'r Uned Gofal, Ysbyty Bodelwyddan, i'r Pwyllgor Craffu hwn er mwyn derbyn eglurdeb am effaith symud yr Uned Gofal cyn gwneud unrhyw argymhelliad i'r cynnig.

(d) Yng nghyswllt **llawdriniaeth fasgwlaidd** sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu Ysbytai Gwynedd / Glan Clwyd a Wrecsam Maelor sydd yn llawdriniaeth gymhleth arbenigol iawn, cynigir symud y gwasanaeth i un canolfan ond nid oedd penderfyniad wedi ei lunio ar ganolfan benodol.

(dd) O safbwynt **gwasanaeth pobl hyn** ac yn bennaf dioddefwyr dementia, cynigir cryfhau timau cymunedol gan symud o wasanaeth ysbyty i roi mwy o gefnogaeth yn y gymuned. Byddai hyn yn greiddiol i adnabod achosion dioddefwyr dementia ynghynt fel bo modd cychwyn triniaeth mewn da bryd a thrwy hyn yn arafu'r dirywiad gydag amser. Esboniwyd beth fyddai effaith hyn ar lawr gwlad yng Ngwynedd sef peidio ail-agor Wardiau yn Ysbyty Bryn Beryl ac Uned Meirion, Dolgellau sydd eisoes wedi cau. Yn ogystal, cynigir lleihau'r gwelyau yn Cefni a'i symud i Ysbyty Gwynedd.

(e) Mewn ymateb i'r cynnig uchod, amlygwyd y pwyntiau isod gan Aelodau unigol:

(i) bod angen sicrhau darpariaeth gofal ysbaid parhaus lleol yn Wardiau Ysbyty Bryn Beryl ac Uned Meirion gan fod pwysau enfawr ar deuluoedd sy'n gorfod teithio i ymweld â chleifion.

(ii) nad oedd teuluoedd estynedig yn bodoli'r dyddiau hyn gan fod pobl ifanc wedi gorfod mynd i ffwrdd i chwilio am waith.
(iii) nad oedd darpariaeth gofal ar gael ym Meirionnydd a mynegwyd pryder dybryd ynglyn â pha ddarpariaeth fyddai ar gael o ystyried hefyd bod y Cyngor yn cau cartrefi henoed ac yn gorfod gwneud toriadau ar ddarpariaeth gofal dydd.
(iv) bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i drafod sefydlu tai gofal ychwanegol i ardal Blaenau Ffestiniog ond nad oedd hyn yn ymarferol bosibl oherwydd anaddasrwydd y tai i dderbyn cyfarpar arbenigol megis teclynnau codi, a.y.b. Nodwyd pryder ynglŷn â diffyg cyfathrebu ar ran y Bwrdd Iechyd yn hyn o beth.

(f) Yng nghyswllt **Gwasanaethau cymunedol**, cynigir ymestyn model, sydd wedi ei dreialu yn Ninbych, ar yr egwyddor o estyn gofal yn y gymuned gan roddi fwy o gefnogaeth i bobl fyw hyd ddiwedd eu hoes yn eu cartrefi. Byddai ymestyn y model hwn ar draws y Gogledd yn clymu fewn i drefniadau ardaloedd sef Meirion/Arfon/Dwyfor ac a fyddai'n cynnig timau ar draws asiantaethau i gyfarfod a chydlynu gofal yn enwedig i gleifion mwyaf dwys eu hanghenion yn yr ardaloedd hynny.

(ff) O ran trefniadau **Ysbytai yn y Gymuned,** cynigir model o ddarparu 3 canolbwynt ysbyty sef Ysbyty Gwynedd, Allt Wen a Dolgellau gyda'r bwriad o resymoli ar leoliadau a sicrwydd o fwy o wasanaethau yn y tri chanolfan megis:

- Symud darpariaeth pelydr-x o Bryn Beryl, Tywyn a Blaenau i'r canolfannau uchod a'i fod ar gael o 9.00 am - 5.00 pm (5 diwrnod o'r wythnos)
- o safbwynt gwasanaeth mân-anafiadau cynigir oriau mwy sefydlog yn y canolfannau o 8.00 am - 8.00 pm (7 diwrnod o'r wythnos) gan gwtogi'r oriau yn Ysbyty Tywyn ac Ysbyty Bryn Beryl. Bwriedir cau uned mân-anafiadau yn Ysbyty Blaenau Ffestiniog a'r rhesymeg dros hyn ydoedd cynnig gwasanaeth cyson a mwy dibynadwy o'i gymharu â'r trefniadau presennol sydd yn cynnig gwasanaeth achlysurol

Yng nghyswllt Ysbyty Blaenau Ffestiniog, cynigir symud gwelyau i Ysbyty Allt Wen neu ddarparu mwy o ofal yn y cartrefi.

(g) Nodwyd bod gwrthwynebiad eang iawn ymysg Aelodau a fynychodd y cyflwyniad yn gynharach heddiw i'r cynigion uchod yn enwedig y gwasanaeth ar gyfer cleifion gyda dementia a chau Uned Mân-anafiadau yn Ysbyty Blaenau Ffestiniog. Pwysleisiwyd bod Blaenau Ffestiniog yn dref ddifreintiedig a mynegwyd pryder am anghyfartaledd iechyd drwy golli gwasanaeth o'r ysbyty o gofio, pe cyfyd argyfwng, bod yr Ysbyty yn gwasanaethu'r ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd gyda'r ysbyty agosaf nesaf oddeutu 14 milltir i ffwrdd.

(ng) Ychwanegwyd y pwyntiau isod gan Aelodau unigol fel sail i gefnogi'r gwrthwynebiadau:

(i) bod yr Uned Mân-anafiadau yn cau yn Ysbyty Blaenau Ffestiniog oherwydd nad oedd nyrsys yn cael digon o ymarfer ond eto deallir mai'r un nyrsys sydd yn ymdrin â'r gwaith yn Ysbyty Allt Wen.
(ii) Mai siomedig iawn oedd ymatebion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cwestiynau a roddwyd ger eu bron.
(iii) Tra'n derbyn bod ymestyn gofal yn y gymuned yn gweithio'n llwyddiannus mewn ardal drefol, ond o safbwynt Gwynedd nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi cymryd i ystyriaeth trafnidiaeth a chyflwr y ffyrdd mewn rhai ardaloedd gwledig o Wynedd,

amserlenni tynn i'w cwblhau gan y nyrsys cymunedol, problemau parcio wrth ymyl tai'r cleifion, prysurdeb yn ystod tymor ymwelwyr i'r ardal.

(iv) Problemau cludiant cyhoeddus / teithio i gleifion / teuluoedd / gofalwyr mewn ardal wledig yn enwedig o Flaenau Ffestiniog i Ysbyty Allt Wen a / neu Ysbyty Gwynedd

(v) Pa mor hir y byddir yn gorfod disgwyl am wasanaethau brys a pha mor bell y bydd rhaid i'r ambiwlansys deithio pe cyfyd argyfwng yn yr ardaloedd gwledig yn Ne Gwynedd?

(vi) Pryder ynglyn â gwasanaeth tu allan i oriau yn Nolgellau. Deallir bod Gogledd Powys wedi bod yn ariannu'r gwasanaeth yn y swm o £200,000 ac y byddai hyn yn lleihad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ni dderbyniwyd ymateb cadarnhaol ynglyn â hyn.

(vii) Pryder ynglyn â gwasanaethau eraill megis clinigau eraill yn symud yn sgil symud gwasanaeth pelydr-X a chwestiynwyd a fyddai'n raddol bach yn tanseilio hyfywdra Ysbytai cymunedol o ganlyniad i hyn

(viii) goblygiadau ariannol i'r Cyngor ac yn benodol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi'r bobl fyddai'n derbyn gofal cartref

(ix) Nodir yn y ddogfen ymgynghori y bwriedir buddsoddi oddeutu £4m i ail ddatblygu cyfleusterau presennol ym Mlaenau Ffestiniog, yn amodol ar ddatblygu achos busnes. Cwestiynwyd ynglyn â sicrwydd o'r buddsoddiad ond ni dderbyniwyd ymateb cadarnhaol gan y Bwrdd Iechyd hyd nes y byddent yn ymwybodol o ganlyniad yr ymgynghoriad.

(x) Y byddai'r gost o ddarparu gwasanaeth gofal yn gost aruthrol o'i gymharu â'r gost i gadw Ysbyty Blaenau Ffestiniog yn agored. Pe byddir yn ei chau golygai hyn golled o un meddyg ynghyd â meddygfeydd yn Llan Ffestiniog ac efallai Dolwyddelan.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Aelod Cabinet (Gofal) gyfleu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:**

**(i) wrthwynebiad llwyr y Pwyllgor Craffu hwn i gau Ysbyty Blaenau Ffestiniog gan ei fod yn gwbl afresymol i wneud hynny oherwydd maint poblogaeth y dref o oddeutu 5,000.**

**(ii) ddymuniad y Pwyllgor Craffu hwn i wahodd arbenigwr o'r Uned Gofal, Ysbyty Bodelwyddan, i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu er mwyn derbyn eglurdeb am effaith symud yr Uned Gofal cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i gynigion y Bwrdd Iechyd.**

**(iii) ddymuniad i wahodd Meddyg Teulu i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu i amlinellu effaith y cynigion o fewn y ddogfen ymgynghori ar lawr gwlad.**

## 5. <u>STRATEGAETH ADDYSG</u>

**Cyflwynwyd:** Adroddiad gan y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu yn amlinellu'r opsiynau i Aelodau ynglŷn â sefydlu Gweithgor i gynorthwyo'r Aelod Cabinet i weithredu rhaglen waith ad-drefnu ysgolion y Sir.

(a) Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at y dewisiadau gan nodi bod rhaglen waith ad-drefnu ysgolion drafft eisoes wedi ei gychwyn ac wedi ei drafod yn y Cabinet anffurfiol ac nad oedd yr opsiwn i sefydlu Gweithgor i gynorthwyo'r Aelod Cabinet yn berthnasol bellach. Felly, argymhellir i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiadau cynnydd yn amserol yn unol â'r Rhaglen Waith y Cabinet.

(b) Nododd Aelod bod hyn yn gwbl annerbyniol ar ran y Cabinet o ystyried eu bod yn ymwybodol o ddymuniad y Pwyllgor Craffu hwn i leisio barn ac i gynrychioli buddiannau eu

hetholwyr. Awgrymwyd y dylid gwrthwynebu hyn yn llwyr ac anfon neges glir i'r Aelod Cabinet (Addysg) mai dymuniad y Pwyllgor Craffu hwn yw bod yn rhan o'r broses i weithredu'r rhaglen waith ad-drefnu ysgolion y sir ac nid bod yn rhan o broses monitro yn fympwyol.

(c) Ategodd Aelod arall yr uchod gan ychwanegu bod angen edrych ar y drefn craffu'n gyffredinol o beth yw'r cyfraniad gorau all Aelodau meinciau cefn gynnig ac na ddylai Aelodau fod yn ymosodol yn erbyn ei gilydd. Pryderai hefyd bod gorchwyl gwaith y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn rhy eang i un Pwyllgor o ystyried bod addysg ac iechyd yn faterion o bwys i drigolion Gwynedd.

(ch) Byddai sefydlu Gweithgorau yn syniad da a fyddai'n arwain at arbenigedd ond cwestiynwyd cyfle i'r Aelodau hynny nad ydynt yn rhan o'r Gweithgor fedru rhoi mewnbwn i'r trafodaethau.

(d) Mewn ymateb i'r uchod, esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y cyflwynir adroddiadau'r Gweithgorau i'r Pwyllgor Craffu cyn penderfynu ar argymhellion i'w cyflwyno i'r Aelod Cabinet.

**Penderfynwyd: Gwrthod yr argymhelliad fel amlinellwyd yn yr adroddiad gerbron a gofyn i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gyfleu i'r Aelod Cabinet ddymuniad y Pwyllgor Craffu hwn i fod yn rhan o'r broses i weithredu'r rhaglen waith ad-drefnu ysgolion y sir ac nid bod yn rhan o broses monitro yn fympwyol**.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.10 p.m.